

Cwestiynau Cyffredin

Deall eich Datganiad Buddion
Blynyddol



Cwestiynau a Ofynnir

Sut ydw i'n gwybod faint sydd ar ôl yn fy mhot pensiwn? Nid yw adran 2 ond yn dangos cyfanswm y buddion yn hytrach na'r gwir swm sydd yn y pot pensiwn?	4
Mae gen i hen bensiwn gohiriedig ac un arall rwy'n ei gronni ar yn o bryd. Tybiaf nad yw'r swm ar y datganiad yn cynnwys y pensiwn gohiriedig?	4
Welaf i ddim pensiwn fy mhartner/goroeswr ar fy natganiad. Oes modd i'r datganiad gynnwys hynny?	4
Pam fod Adran 5 o fy natganiad yn dweud nad oedd dim cyflog terfynol rhwng 01/04/2024 a 31/03/2025, a minnau wedi bod yn fy swydd bresennol ers 2019?	4
Sut y cyfrifir y rhagamcan o'r pensiwn?	5
Pa mor agos ati yw'r amcangyfrif o'r pensiwn wrth gyrraedd yr oedran pensiwn arferol?	5
Ble yn y Datganiad Blynyddol fedrwn ni weld cyfraniad y cyflogwr at y pensiynau?	5
Allwch chi sôn mwy am y cynnydd blynyddol yng ngwerth y pensiwn a sut y cyfrifir hynny? Ydi'r gyfrifiannell incwm yn cyfrif hyn?	5
Ar beth mae twf y pensiwn yn seiliedig, os nad yw'n gysylltiedig â'r farchnad?	6
Fe drosglwyddais bensiwn o gynllun arall i fy nghronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Lle gaiff hyn ei nodi yn y datganiad blynyddol?	6
A yw'r lwfans blynyddol wedi newid eto?	6
A yw'r cyflogwr yn talu cyfraniadau cyfatebol i Gyfraniadau Pensiwn Ychwanegol?	6
A oes modd trosglwyddo Cyfraniad Gwirfoddol Ychwanegol i'r prif gynllun pensiwn a beth yw'r manteision ac anfanteision o hynny?	7
Mae gen i ddau o bensiynau yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r naill yn un gohiriedig a'r llall yn gyfredol. Pam nad oes modd cyfuno'r ddau ohonynt?	7
Beth ydi ystyr 50:50?	7
Os byddaf yn ymddeol yn gynnar yn 60 oed, am ba hyd y caiff y grant marwolaeth ei dalu i fy muddiolwr ar ôl imi ymddeol?	8
Oes modd imi enwebu fy merch fy hun, a hithau'n mynd i dderbyn y cyfandaliad beth bynnag? A fydd hi'n derbyn y ddau, y cyfandaliad a'r grant?	9
A yw'r Mynegiad o Ddymuniad yn ddim ond enw arall ar y trefniant i dalu teirgwaith eich cyflog blynyddol os byddwch chi farw?	9
Os bydd farw rhywun pan maent yn dal mewn gwasanaeth, a delir pensiwn y goroeswr ar unwaith, ynteu ar yr adeg pan fyddai'r sawl a fu farw'n cyrraedd yr oedran pensiwn arferol?	9
Os ydych chi'n hawlio pensiwn o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ac yn marw, a fydd eich cymar yn dal i gael y pensiwn os ydynt yn iau na'r oedran pensiwn arferol?	9

PENSIWN

15 - 19 Medi 2025

A yw'r pensiwn goroeswr yn daladwy os byddaf farw ar ôl imi ymddeol a dechrau derbyn fy mhensiwn o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol?	9
Beth yw dyfarniad McCloud?	10
A yw'r datganiadau'n cynnwys yr asesiad McCloud?	10
Ble ddof i o hyd i'r datganiad ar y porth?	10
Oes modd gofyn am ddatganiad ysgrifenedig drwy'r post?	10
A yw'r rheol 85 yn dal mewn grym mewn rhai amgylchiadau? Hynny yw, medru ymddeol â phensiwn llawn cyn troi'n 67?	10
Sut ydych chi'n cyfrannu i gael y cyfandaliad? Ai Cyfraniad Gwirfoddol Ychwanegol yw hwn?	11
Ai 25% o gyfanswm gwerth y gronfa yw'r uchafswm ar gyfer y cyfandaliad?	11
Beth yw'r terfynau Cyllid a Thollau ar gyfer y cyfandaliad di-dreth?	11
Os ydych yn gadael eich swydd ac yn gohirio'ch pensiwn yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, oes modd wedyn ichi wneud cais i gymryd y pensiwn ar unrhyw adeg cyn yr oedran ymddeol arferol?	11
Dolenni a manylion cyswllt defnyddiol	12

Datganiadau Buddion Blynyddol

Sut ydw i'n gwybod faint sydd ar ôl yn fy mhot pensiwn? Nid yw adran 2 ond yn dangos cyfanswm y buddion yn hytrach na'r gwir swm sydd yn y pot pensiwn?

Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gynllun â 'Buddion Diffniedig'. Mae hynny'n golygu nad oes gennych chi 'bot' o arian fel y cyfryw. Yn hytrach na hynny, rydych chi a'ch cyflogwr yn talu cyfraniadau ichi fod yn aelod o'r cynllun. Cyfrifir eich buddion pensiwn drwy fformiwla sy'n seiliedig ar eich cyflog ac am ba hyd y buoch yn talu cyfraniadau i'r cynllun. Dyna pam na welwch chi 'werth y pot pensiwn' ar eich datganiad. Yn lle hynny, rhown wybod ichi faint o bensiwn rydych chi wedi'i gronni ers bod yn aelod.

Mae gen i hen bensiwn gohiriedig ac un arall rwy'n ei gronni ar yn o bryd. Tybiaf nad yw'r swm ar y datganiad yn cynnwys y pensiwn gohiriedig?

Fe dybiwch yn gywir, gan y bydd eich cronfa bensiwn fel arfer yn cyhoeddi datganiad buddion blynyddol ar wahân ar gyfer pob pensiwn sydd gennych.

Welaf i ddim pensiwn fy mhartner/goroeswr ar fy natganiad. Oes modd i'r datganiad gynnwys hynny?

Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn darparu buddion i'ch partner a'ch plant os ydynt yn gymwys. Nid ydym yn cynnwys y ffigurau hyn yn y datganiad gan nad ydym o reidrwydd yn meddu ar y manylion personol angenrheidiol i fedru amcangyfrif gwerth y buddion. Rydym bob amser yn gwirio bod eich cymar, partner sifil neu bartner sy'n cyd-fyw â chi ac / neu eich plant yn gymwys cyn talu unrhyw arian iddynt. Efallai y bydd modd ichi weld amcangyfrif o fuddion pensiwn eich partner drwy borth aelodau'r gronfa. Holwch eich cronfa am fanylion.

Pam fod Adran 5 o fy natganiad yn dweud nad oedd dim cyflog terfynol rhwng 01/04/2024 a 31/03/2025, a minnau wedi bod yn fy swydd bresennol ers 2019?

Daeth yr elfen Cyflog Terfynol o'r cynllun i ben ar 31 Mawrth 2014. Os mai dim ond ar ôl hynny y buoch mewn gwasanaeth, ni chaiff swm cyflog terfynol ei gynnwys yn eich cofnod pensiwn. Os buoch mewn gwasanaeth cyn 1 Ebrill 2014, cysylltwch â'ch cronfa bensiwn i sicrhau bod eich cofnod yn gywir.

Sut y cyfrifir y rhagamcan o'r pensiwn?

Defnyddiwn wybodaeth sydd gennym amdanoch yn barod, fel eich oedran ymddeol arferol a'ch cyflog am y flwyddyn ddiwethaf. Ar sail hynny, amcangyfrifwn swm eich pensiwn pan fyddwch yn ymddeol gan dybio eich bod wedi dal i weithio tan eich oedran ymddeol arferol a chael yr un cyflog bob blwyddyn nes ichi ymddeol. Mae'r amcangyfrif a roddir ar y porth ar-lein weithiau'n cymryd codiadau cyflog tybiannol i ystyriaeth.

Pa mor agos ati yw'r amcangyfrif o'r pensiwn wrth gyrraedd yr oedran pensiwn arferol?

Ni allwn ond defnyddio gwybodaeth sydd gennym amdanoch yn barod, fel eich oedran ar y pryd, eich oedran ymddeol arferol a'ch cyflog. Wyddom ni ddim beth fydd yn digwydd yn eich gyrfa yn y dyfodol, pa godiadau cyflog a gewch chi nac unrhyw newid yn eich oriau, nac ychwaith a fyddwch chi'n ymadael â'r cynllun cyn ichi ymddeol. Defnyddiwn y wybodaeth sydd gennym i lunio rhagamcan o'ch pensiwn rhwng hynny a dyddiad eich ymddeoliad a gwneir hynny er gwybodaeth y unig; ni allwn warantu'r swm a nodir yn y Datganiad Buddion Blynnyddol.

Ble yn y Datganiad Blynnyddol fedrwn ni weld cyfraniad y cyflogwr at y pensiynau?

Nid ydym yn cyhoeddi cyfraniadau eich cyflogwr yn eich datganiad. Y rheswm am hynny yw nad yw'r swm y mae'ch cyflogwr yn ei gyfrannu'n gwneud dim gwahaniaeth i'ch buddion pensiwn. Gallwch gael gwybod y ganran y mae'ch cyflogwr yn ei thalu i'r cynllun ar eich rhan. Mae rhai cyflogwyr yn cyhoeddi cyfraddau eu cyfraniadau ar slipiau cyflog a'u gwefannau. Fel arall, cysylltwch â'ch cronfa pensiwn i holi.

Allwch chi sôn mwy am y cynnydd blynnyddol yng ngwerth y pensiwn a sut y cyfrifir hynny? Ydi'r gyfrifiannell incwm yn cyfrif hyn?

Mae gwerth eich pensiwn yn newid (neu'n cael ei adbriso) ar sail chwyddiant er mwyn iddo fod yn ddigonol i dalu costau byw. I aelodau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, nid yw adbriso ar sail Enillion Cyfartalog Gyrfa ond yn berthnasol i fuddion a gronwyd drwy hynny ers 1 Ebrill 2014.

Caiff eich pensiwn Enillion Cyfartalog Gyrfa ei adbriso bob mis Ebrill. Fel arfer, defnyddiwn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr o'r mis Medi blaenorol. Y Llywodraeth, fodd bynnag, sy'n cadarnhau union ganran yr adbrisiad yn swyddogol bob mis Chwefror.

Caiff adbrisiadau blaenorol eu cynnwys yn y rhagamcanion ar-lein ac yn eich Datganiad Buddion Blynnyddol. Mae modd ychwanegu codiadau cyflog tybiannol yn y dyfodol wrth wneud rhagamcanion ar-lein.

Ar beth mae twf y pensiwn yn seiliedig, os nad yw'n gysylltiedig â'r farchnad?

Gweler uchod os gwelwch yn dda.

Fe drosglwyddais bensiwn o gynllun arall i fy nghronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Lle gaiff hyn ei nodi yn y datganiad blynyddol?

Os ydych chi wedi trosglwyddo hawliau pensiwn eraill i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, fe gânt eu cynnwys yn y buddion pensiwn yn eich Datganiad Buddion Blynyddol. Os trosglwyddoch chi hawliau i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol cyn 1 Ebrill 2014, fe gânt eu cynnwys yn yr adran o'r Datganiad ynglŷn â'r Cynllun Cyflog Terfynol. Os trosglwyddoch chi'r hawliau ar ôl 1 Ebrill 2014, fe gânt eu cynnwys yn yr adran o'r Datganiad ynglŷn ag Enillion Cyfatalog Gyrfa wedi'u Hadbrisio.

Cysylltwch â'ch cronfa bensiwn os dymunwch holi ynglŷn ag unrhyw aelodaeth a drosglwyddwyd.

A yw'r lwfans blynyddol wedi newid eto?

Y lwfans blynyddol yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yw'r swm y gall eich buddion pensiwn gynyddu mewn blwyddyn heb ichi orfod talu treth. Mae'r lwfans blynyddol safonol wedi cynyddu i £60,000 ers 6 Ebrill 2023. Os yw'r cynilion yn eich cronfa bensiwn yn fwy na hynny, codir treth ar y swm dros ben fel pe bai'n incwm. Bydd eich cronfa'n ysgrifennu atoch os ydych chi ar fin mynd dros y lwfans blynyddol.

Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol

A yw'r cyflogwr yn talu cyfraniadau cyfatebol i Gyfraniadau Pensiwn Ychwanegol?

Nac ydi; nid oes raid i'ch cyflogwr dalu cyfraniadau cyfatebol i Gyfraniadau Pensiwn Ychwanegol. Gall eich cyflogwr, fodd bynnag, ddewis rhannu cost y pensiwn ychwanegol a dylai fod ganddo bolisi sy'n egluro unrhyw drefniant felly. Cofiwch gael cadarnhad ysgrifenedig o'r gyfran y bydd eich cyflogwr yn ei thalu cyn gwneud cais am Gyfraniadau Pensiwn Ychwanegol.

Gallwch hefyd dalu cyfraniadau pensiwn ychwanegol i brynu pensiwn a gollwyd yn ôl os buoch i ffwrdd o'r gwaith heb gyflog. Gallwch wneud hynny ym mhrif adran y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a'r adran 50:50.

Os dewiswch chi brynu pensiwn a gollwyd yn ôl cyn pen 30 o ddiwrnodau ar ôl dychwelyd i'r gwaith, bydd eich cyflogwr yn talu dau draean o'r gost (oni buoch chi ar streic). Gallwch dalu am y pensiwn a gollwyd fesul tipyn drwy gyfraniadau rheolaidd o'ch cyflog, neu dalu'r swm

cyfan ar unwaith. Os ydych chi'n talu treth, fe gewch ryddhad ar y cyfraniadau ychwanegol rydych yn eu talu.

A oes modd trosglwyddo Cyfraniad Gwirfoddol Ychwanegol i'r prif gynllun pensiwn a beth yw'r manteision ac anfanteision o hynny?

Pan fyddwch chi ar fin ymddeol, bydd eich cronfa bensiwn yn gofyn ichi sut y dymunwch ddefnyddio'r arian o'ch Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol. Bydd gennych amryw ddewisiadau sy'n dibynnu ar:

- ba bryd y dechreuodd eich cynllun Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol
- pa bryd rydych chi'n ymadael â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol
- y rheswm dros ddechrau derbyn eich pensiwn.

Efallai y bydd modd ichi ddefnyddio'r arian o'r cynllun Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol neu gyfran ohono i brynu pensiwn ychwanegol gan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Ni fydd modd ichi wneud hynny ond os ydych chi'n derbyn eich holl fuddion o'r prif gynllun yn un taliad pan fyddwch chi'n ymadael â'r cynllun.

Cyfuno Cofnodion y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae gen i ddau o bensiynau yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r naill yn un gohiriedig a'r llall yn gyfredol. Pam nad oes modd cyfuno'r ddau ohonynt?

Fel rheol, mae modd ichi gyfuno dau neu fwy o bensiynau yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'n rhaid ichi roi gwybod i'ch cronfa bensiwn bresennol am eich buddion blaenorol a sôn fod gennych ddiddordeb yn eu cyfuno. Wedyn, bydd eich cronfa bresennol yn cychwyn y drefn o gyfuno'r buddion ac yn cysylltu â'r gronfa arall yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar eich rhan. Efallai y bydd angen ichi lenwi ffurflen i roi caniatâd i'ch cronfa bresennol gysylltu â'r un flaenorol. Cofiwch bod yn rhaid ichi drosglwyddo unrhyw hawliau pensiwn blaenorol i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol cyn pen blwyddyn wedi ymaelodi, fel arfer.

Cyfraniadau

Beth ydi ystyr 50:50?

Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn rhoi'r dewis ichi dalu hanner eich cyfraniadau arferol a chronni gwerth hanner eich pensiwn arferol. Dyma yw Adran 50:50 o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Byddwch yn dal wedi'ch yswirio'n llawn rhag marwolaeth ac afiechyd os ymunwch chi â'r adran 50:50. Nod yr adran 50:50 yw helpu aelodau i aros yn y Cynllun a chronni pensiwn ar adegau o gyni ariannol. Gallwch ofyn i'ch cyflogwr am ffurflen i ymuno â'r adran 50:50 neu gysylltu â'ch cronfa bensiwn.

Mae'r tabl ar y dudalen nesaf yn dangos y cyfraddau cyfrannu cyfredol ym mhrif adran y Cynllun a'r adran 50:50.

Cyfraddau cyfraniadau gweithwyr o 1 Ebrill 2025 ymlaen

Eich cyflog pensiynadwy gwirioneddol	Cyfradd cyfraniadau yn y brif adran	Cyfradd cyfraniadau yn yr adran 50:50
Hyd at £17,800	5.50%	2.75%
£17,801 i £28,000	5.80%	2.90%
£28,001 i £45,600	6.50%	3.25%
£45,601 i £57,700	6.80%	3.40%
£57,701 i £81,000	8.50%	4.25%
£81,001 i £114,800	9.90%	4.95%
£114,801 i £135,300	10.50%	5.25%
£135,301 i £203,000	11.40%	5.70%
£203,001 a mwy	12.50%	6.25%

Yswiriant Bywyd

Os byddaf yn ymddeol yn gynnar yn 60 oed, am ba hyd y caiff y grant marwolaeth ei dalu i fy muddiolwr ar ôl imi ymddeol?

Telir grant marwolaeth mewn un swm os ydych chi'n iau na 75 oed pan fyddwch chi farw a bod un o'r isod yn berthnasol:

- eich bod yn dal i dalu cyfraniadau i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol
- eich bod wedi ymadael â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ond heb ddechrau derbyn eich pensiwn
- eich bod wedi ymadael ar ôl 31 Mawrth 2008 ac wedi bod yn derbyn eich pensiwn ers llai na deng mlynedd
- eich bod wedi ymadael â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol rhwng 1 Ebrill 1998 a 31 Mawrth 2008 ac wedi bod yn derbyn eich pensiwn ers llai na phum mlynedd.

Os gadawoch chi cyn 1 Ebrill 1998 ac yn derbyn eich pensiwn, efallai y bydd grant yn daladwy pan fyddwch chi farw. Mae cyfrifo hyn yn fater cymhleth a gallwch ofyn i'ch cronfa pensiwn leol am amcangyfrif o'r swm a allai fod yn daladwy.

PENSIWN

15 – 19 Medi 2025

Gallwch enwebu buddiolwyr i gael eich grant marwolaeth. Cysylltwch â'ch cronfa pensiwn i gael ffurflen enwebu.

Oes modd imi enwebu fy merch fy hun, a hithau'n mynd i dderbyn y cyfandaliad beth bynnag? A fydd hi'n derbyn y ddau, y cyfandaliad a'r grant?

Gall aelodau ddewis cymryd cyfandaliad di-dreth pan maent yn ymddeol a thelir hwnnw'n uniongyrchol i'r aelod. Os byddwch chi farw a bod grant marwolaeth yn daladwy, gallwch enwebu'r sawl y dymunwch iddynt gael y grant marwolaeth. Cysylltwch â'ch cronfa pensiwn i gael ffurflen enwebu.

A yw'r Mynegiad o Ddymuniad yn ddim ond enw arall ar y trefniant i dalu teirgwaith eich cyflog blynyddol os byddwch chi farw?

Os byddwch chi farw tra rydych yn dal i dalu cyfraniadau i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, telir grant marwolaeth gwerth teirgwaith eich cyflog blynyddol mewn un swm. Mae'r mynediad o ddymuniad yn sôn am y ffurflen enwebu y mae gofyn i aelodau ei llenwi er mwyn rhoi gwybod i'r gronfa pensiwn i bwy y dymunant dalu'r grant marwolaeth. Cysylltwch â'ch cronfa pensiwn i gael ffurflen enwebu.

Os bydd farw rhywun pan maent yn dal mewn gwasanaeth, a delir pensiwn y goroeswr ar unwaith, ynteu ar yr adeg pan fyddai'r sawl a fu farw'n cyrraedd yr oedran pensiwn arferol?

Bydd pensiwn y partner yn daladwy o'r diwrnod cyntaf ar ôl dyddiad y farwolaeth.

Os ydych chi'n hawlio pensiwn o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ac yn marw, a fydd eich cymar yn dal i gael y pensiwn os ydynt yn iau na'r oedran pensiwn arferol?

Gellir talu pensiwn y partner i rywun sy'n briod ichi, yn bartner sifil ichi neu'n cyd-fyw â chi (os bodlonir y meini prawf cymhwyso). Bydd y pensiwn yn daladwy o'r diwrnod cyntaf ar ôl dyddiad y farwolaeth, pa faint bynnag yw oed y partner.

A yw'r pensiwn goroeswr yn daladwy os byddaf farw ar ôl imi ymddeol a dechrau derbyn fy mhensiwn o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol?

Ydi, os oes partner cymwys yn eich goroesi bydd pensiwn yn daladwy, p'un a oeddech yn aelod cyfredol, yn aelod gohiredig neu'n aelod oedd eisoes yn derbyn buddion pensiwn.

McCloud

Beth yw dyfarniad McCloud?

Newidiodd rheolau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar 1 Hydref 2023. Pan newidiodd cynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus o gynlluniau cyflog terfynol i gynlluniau cyfartaledd gyrfa yn 2014 a 2015, gwarchodwyd aelodau hŷn rhag y newidiadau hynny.

Yn 2018, canfu'r Llysoedd y gwahaniaethwyd yn erbyn aelodau iau gan nad oedd y warchodaeth yn berthnasol iddynt hwy.

Galwyd y newidiadau a wnaed yn 2023 yn Ddatrysiad McCloud. Drwy hynny cafwyd gwared ar y gwahaniaethu ar sail oedran a ganfuwyd yn ystod achos llys McCloud.

Nid yw'r newidiadau'n effeithio ar holl aelodau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Bydd eich cronfa'n asesu a yw'r warchodaeth yn berthnasol i chi ac yn cynnwys unrhyw swm gwarantedig ychwanegol at y swm terfynol a gynigir ichi wrth ymddeol.

A yw'r datganiadau'n cynnwys yr asesiad McCloud?

Holwch eich cronfa am fanylion ynglŷn â hyn.

Cymorth â'r Porth Ar-lein

Ble ddof i o hyd i'r datganiad ar y porth?

Mae porth ar-lein pob cronfa ychydig yn wahanol, felly cysylltwch â'ch cronfa pensiwn am gymorth i ddod o hyd i'ch datganiad.

Oes modd gofyn am ddatganiad ysgrifenedig drwy'r post?

Oes, gallwch ysgrifennu i'ch cronfa pensiwn i ddweud y byddai'n well gennych gael gohebiaeth ar bapur yn unig.

Ymddeol

A yw'r rheol 85 yn dal mewn grym mewn rhai amgylchiadau?

Hynny yw, medru ymddeol â phensiwn llawn cyn troi'n 67?

Os ydych chi'n gymwys o dan Reol 85 ac yn ymddeol yn gynnar, neilltuir cyfran o'ch pensiwn ac ni chaiff ei lleihau.

Dim ond os oeddech yn talu cyfraniadau pensiwn i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol cyn 1 Hydref 2006 y byddwch yn gymwys ar gyfer Rheol 85. Rydych yn bodloni Rheol 85 os yw:

- Eich oedran pan fyddwch chi'n cymryd eich buddion o'r Cynllun + Nifer y blynnyddoedd yr ydych wedi talu cyfraniadau pensiwn i'r Cynllun = 85 neu fwy

PENSIWN

15 – 19 Medi 2025

Mae'r swm a ddiogelir dan y rheol 85 mlynedd yn gostwng yn raddol nes diddymir y drefn yn llwyr, ac mae'n annhebygol y caiff eich holl fuddion eu diogelu. Bydd eich cronfa pensiwn yn medru cadarnhau pa elfennau o'ch pensiwn a ddiogelir dan y rheol 85 mlynedd.

Sut ydych chi'n cyfrannu i gael y cyfandaliad? Ai Cyfraniad Gwirfoddol Ychwanegol yw hwn?

Mae dewis gan bob aelod sy'n cyfrannu i ffeirio rhywfaint o'u pensiwn am gyfandaliad, hyd at uchafswm penodol. Mae Cyfraniad Gwirfoddol Ychwanegol yn drefniant ar wahân sy'n eich galluogi i dalu cyfraniadau ychwanegol ar ben eich cyfraniadau arferol i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Gallwch ddewis cael y buddion yn eich cronfa Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol fel cyfandaliad yn ychwanegol i'ch buddion o'r prif Gynllun.

Ai 25% o gyfanswm gwerth y gronfa yw'r uchafswm ar gyfer y cyfandaliad?

Ie, yn gyffredinol. Gallwch weld uchafswm gwerth y cyfandaliad drwy ragamcanu'ch buddion ar y porth ar-lein neu gysylltu â'ch cronfa pensiwn am wybodaeth yn benodol i'ch amgylchiadau chi.

Beth yw'r terfynau Cyllid a Thollau ar gyfer y cyfandaliad di-dreth?

Uchafswm y buddion y gallwch eu cymryd o'ch holl gynlluniau pensiwn ar ffurf arian parod di-dreth yw £268,275, fel arfer. Mae'r uchafswm yn berthnasol i'r holl bensiynau sydd gennych chi, nid pob un ar wahân.

Os ydych yn gadael eich swydd ac yn gohirio'ch pensiwn yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, oes modd wedyn ichi wneud cais i gymryd y pensiwn ar unrhyw adeg cyn yr oedran ymddeol arferol?

Oes, mae llawer o aelodau'r Cynllun yn ymadael cyn cyrraedd oedran pensiwn y wladwriaeth ac yn gohirio cymryd eu pensiynau.

- Os gwnaethoch chi roi'r gorau i dalu cyfraniadau pensiwn ar 1 Ebrill 1998 neu ar ôl hynny, gallwch ddewis cymryd eich pensiwn unrhyw bryd rhwng 55* a 75 oed.
- Os gwnaethoch chi roi'r gorau i dalu cyfraniadau pensiwn cyn 1 Ebrill 1998, mae'n rhaid i chi ddechrau cymryd eich pensiwn pan gyrhaeddwch chi'r oedran ymddeol arferol a dim hwyrach. Yr oedran ymddeol arferol yw naill ai eich oedran pensiwn y wladwriaeth neu 65 oed, pa un bynnag yw'r hynaf.

*55 yw'r isafswm oedran pensiwn arferol ar hyn o bryd. Bydd yr oedran yn codi i 57 ar 6 Ebrill 2028.

PENSIWN

15 – 19 Medi 2025

Dolenni a manylion cyswllt defnyddiol

Gwefan aelodau CPLIL Cenedlaethol 	www.lgpsmember.org Cyfrifianellau, fideos, cwestiynau cyffredin, gwybodaeth gyffredinol am y cynllun (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg)
 Cronfa Bensiynau CLWYD Pension Fund	cronfabensiynauclwyd.org.uk pensiynau@siryfflint.gov.uk
 Oxfordshire Pension Fund www.oxfordshire.gov.uk/pensions	www.oxfordshire.gov.uk/business/oxfordshire-pension-fund Pension.services@oxfordshire.gov.uk
 Shropshire County Pension Fund	www.shropshirecountypensionfund.co.uk pensions@shropshire.gov.uk